**Yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.5, dyma ofyn am ganiatâd y Llywydd i gyflwyno'r Cynnig Brys hwn i'r Cyngor Llawn ar 12 Gorffennaf 2023.**

Mae testun y Cynnig wedi codi rhwng y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Cynigion a dyddiad y cyfarfod. Rydyn ni o'r farn bod y Cynnig yn galw am benderfyniad brys er budd y cyhoedd nad oes modd ei drafod drwy ddulliau eraill.

Rhybudd o Gynnig **sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A O Rogers; D Wood, K Morgan, S Evans, D Grehan, H Gronow, P Evans, A Ellis**

Er gwaethaf yr e-bost gan y Prif Weithredwr a anfonwyd at yr Aelodau am 13:26 o'r gloch ddoe, mae'r Cyngor yma'n gresynu nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth flaenorol am gynlluniau i derfynu darpariaeth fewnol y gwasanaeth gofal yn y cartref symudol gyda'r nos. Rhoddwyd gwybod i'r holl Aelodau am y cynnig yma drwy e-bost a anfonwyd ddeuddydd yn ôl gan staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Cawson nhw eu galw i gyfarfod gyda swyddogion ac undebau yr wythnos ddiwethaf i gael gwybod am y bwriad i roi'r gwasanaeth ar gontract allanol i ddarparwyr eraill yn y sector preifat/annibynnol.

Mae hyn yn mynd yn groes i ymrwymiad y Cyngor i warchod gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol lle mae'r staff yn cael eu talu ar Delerau ac Amodau Cenedlaethol. Mae'n anfaddeuol bod newid o'r fath i wasanaeth gwerthfawr ac angenrheidiol iawn wedi cael ei ystyried gan reolwyr o dan benderfyniad dirprwyedig gweithredol nas cyhoeddwyd tan ddoe.

Roedd Rhaglen Waith y Cabinet hefyd wedi'i diwygio, gydag Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Strategaeth Gwasanaethau i Oedolion ddrafft, yr oedd disgwyl iddyn nhw gael eu trafod ym mis Gorffennaf, bellach wedi'u symud i fis Hydref 2023. Pe byddai'r adroddiadau yma wedi cael eu trafod ym mis Gorffennaf yn ôl y cynllun gwreiddiol, byddai o leiaf rhywfaint o wybodaeth gan yr Aelodau am y cynnig i derfynu'r gwasanaeth gyda'r nos.

Mae'r Penderfyniad Dirprwyedig Gweithredol sydd wrthi'n cael ei gyhoeddi yn mynd i'r afael â rhywfaint o bryderon yr Aelodau am y broses briodol. Serch hynny, nid yw'n awdurdodi penderfyniad y swyddog ym mis Mawrth i beidio â derbyn atgyfeiriadau, gan fynd ati'n fwriadol i gwtogi'r gwasanaeth a pheri i'r Prif Weithredwr ddatgan bod y "trefniant presennol ddim yn cyflwyno'r dull mwyaf effeithiol o ddarparu'r gofal a chymorth yma mwyach" yn ei e-bost.
O dan yr amgylchiadau yma, mae'n bwysig sicrhau dealltwriaeth o ran sut mae modd i swyddogion ddefnyddio awdurdod gweithredol i gwtogi ar wasanaeth, gyda'r nod o gael gwared arno yn y pen draw, heb yn wybod i'r Aelodau a heb eu caniatâd.

Mae'r Cyngor yma felly'n gofyn i'r Prif Weithredwr wneud datganiad heddiw, cyn y toriad, ynghylch:

- Pam fod y gwasanaeth wedi'i gwtogi'n fwriadol ym mis Mawrth a pham na chyhoeddwyd hysbysiad o benderfyniad dirprwyedig ynglŷn â'r newid hwnnw?
- Sut mae modd i ddileu gwasanaeth gael ei ystyried yn benderfyniad gweithredol yn hytrach na phenderfyniad i'r Cabinet/Cyngor Llawn.